Page

# Cynllun rheoli a chynnal a chadw – canllaw arfer da

29/01/2024
See all updates
Mae rheoli a chynnal a chadw da'n hanfodol i ofal hirdymor safleoedd, casgliadau ac asedau treftadaeth. Gall rheoli a chynnal a chadw gwael roi eich treftadaeth mewn perygl ac arwain at gostau uwch yn y dyfodol.

Trwy ddarllen y canllaw hwn fe gewch awgrymiadau ar sut i gynllunio rheoli a chynnal a chadw'n llwyddiannus, gan gynnwys sut i strwythuro eich cynllun, camau i'w cymryd wrth baratoi eich cynllun a sut i gysylltu â chynlluniau cysylltiedig eraill. Mae hefyd yn cynnwys atodiadau ar yr hyn a olygwn wrth reoli a chynnal a chadw a dolenni i arweiniad pellach sy'n benodol i wahanol fathau o dreftadaeth.

Er mwyn sicrhau bod y dreftadaeth rydym yn ei chefnogi'n cael ei gwerthfawrogi a'i chynnal ac y gofalir amdani dros bawb, nawr ac yn y dyfodol, os ydych chi'n gwneud cais am grant o fwy na £250,000 a bod eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, creu deunydd newydd neu brynu adeilad hanesyddol, adeiledd, treftadaeth trafnidiaeth neu dir, gofynnwn i chi baratoi cynllun rheoli a chynnal a chadw.

Os ydych chi'n rhedeg prosiect ardal, yn lle hynny bydd angen i chi greu cynllun rheoli ardal fel rhan o'ch cynllun gweithredu ardal.

## Ynghylch cynllunio rheoli a chynnal a chadw

Mae cynllun rheoli a chynnal a chadw yn manylu ar sut y bydd canlyniadau eich prosiect yn cael eu cynnal a chadw, pwy fydd yn ei wneud, pa sgiliau y bydd eu hangen arnynt, pryd y bydd angen gwneud pethau a beth fydd cost y gwaith hwn. Gall cynllun eich helpu i ofalu am eich treftadaeth, datblygu eich prosiect, meddwl am adnoddau a gobeithio, sicrhau nad yw'r un problemau'n codi eto.

Fel rhan o'n telerau grant, gofynnwn i chi sicrhau bod y gwaith a ariannwn yn cael ei gadw mewn cyflwr da a bod buddion eich prosiect yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Os bydd gofyn i chi gynhyrchu cynllun rheoli a chynnal a chadw fel rhan o'ch prosiect, byddwn yn disgwyl i'ch sefydliad:

- fabwysiadu eich cynllun rheoli a chynnal a chadw
- ei integreiddio i'ch polisïau rheoli a gofal presennol
- darparu adnoddau ariannol i roi'r cynllun hwnnw ar waith drwy gydol cyfnod eich contract grant

Gallwch gynnwys costau rheoli a chynnal a chadw uwch am uchafswm o bum mlynedd ar ôl y prosiect o fewn cyllideb eich cais rownd gyflwyno.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau uwch sy'n codi o ganlyniad i waith cyfalaf a wnaed yn ystod eich prosiect. Os byddwch yn gwneud hyn, rhaid cynnwys cynnydd mewn costau rheoli a chynnal a chadw yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Dylid darparu tystiolaeth o gostau ac incwm ar ffurf llythyr sy'n datgan eu gwerth, wedi'i lofnodi gan swyddog ariannol uchaf eich sefydliad.

# Cysylltiadau ag agweddau eraill ar eich prosiect

Ni ddylid cynllunio rheoli a chynnal a chadw ar wahân i agweddau eraill ar gynllunio eich prosiect.

Cyn i chi baratoi cynllun rheoli a chynnal a chadw, bydd angen i chi drefnu arolwg cyflwr neu adroddiad ar eich treftadaeth, megis arolwg adeilad neu arolwg o gynefin, tirwedd neu gasgliad. Dylech hefyd sicrhau eich bod yn deall sut mae eich adeilad neu safle'n gweithredu o ran ei berfformiad amgylcheddol.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â gwaith cyfalaf, creu deunydd newydd neu brynu adeilad, adeiledd, treftadaeth trafnidiaeth hanesyddol neu dirwedd hanesyddol wedi'i dylunio fel parc, byddwn yn gofyn i chi baratoi cynllun cadwraeth yn ychwanegol at eich cynllun rheoli a chynnal a chadw yn gynnar yn y cam datblygu neu fel rhan o'ch cais rownd gyflwyno, a chynllun gweithgareddau fel rhan o'ch cais rownd gyflwyno. Mae'n bwysig bod y cynlluniau hyn yn cysylltu â'i gilydd.

Ceir syniadau ar sut y gallwch gysylltu cynlluniau gwahanol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 y canllaw hwn.

# Beth i'w roi mewn cynllun rheoli a chynnal a chadw

Dylai cynllun rheoli ddisgrifio:

- y sefyllfa bresennol
- dadansoddiad, nodau ac amcanion – datblygu'r sefyllfa a ddymunir yn y dyfodol
- ffordd o symud tuag at y sefyllfa a ddymunir yn y dyfodol
- dull o fesur cynnydd

Mae angen i'ch cynllun fod yn hygyrch i'r gynulleidfa arfaethedig ac efallai y byddwch am ystyried crynodeb cyffredinol os yw'r cynllun ei hun yn mynd yn rhy dechnegol.

Bydd croesgyfeirio â chynlluniau eraill a chrynhoi cynnwys o ddogfennau eraill yn helpu cadw maint y cynllun i lawr a'i wneud yn haws i'w ddarllen.

Awgrymwn i chi ddefnyddio'r strwythur hwn:

1. Cyflwyniad
2. Y sefyllfa bresennol
3. Dadansoddiad, nodau ac amcanion
4. Cynllun gweithredu

### 1. Cyflwyniad

Adran fer sy'n cynnwys:

- pwy ysgrifennodd y cynllun, pryd a pham
- pwy yr ymgynghorwyd â nhw?
- cwmpas y cynllun
- cysylltiadau â gwaith cynllunio arall
- disgrifiad byr iawn o'ch prosiect a'r hyn y bydd yn ymdrin ag ef
- unrhyw fylchau yn y cynllun
- a yw'r cynllun yn cwmpasu'r safle, casgliad neu ased cyfan sydd o dan eich perchnogaeth neu ddim ond ardal y prosiect
- sut mae'r dreftadaeth wedi newid dros amser, pam ei bod yn bwysig ac i bwy

## 2. Y sefyllfa bresennol (lle rydyn ni nawr)

Mae strwythuro'r adran hon yn allweddol i wneud y cynllun yn ddarllenadwy. Awgrymir y penawdau a ganlyn.

### Y safle, casgliad neu ased

- pwy sy'n gyfrifol am reoli a chynnal a chadw ar hyn o bryd
- beth maen nhw'n ei wneud, pryd maen nhw'n ei wneud a chyda pha adnoddau
- beth yw cyflwr eich treftadaeth ar hyn o bryd (gan ddefnyddio eich arolwg cyflwr)
- pa safonau rheoli a chynnal a chadw sydd angen i chi eu bodloni
- rhowch grynodeb byr o'ch prosiect a pha waith y bydd yn ei wneud

### Cynllun gweithgareddau

Dylai eich cynllun gweithgareddau ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i chi i'ch helpu cwblhau'r adran hon, a ddylai gynnwys:

- eich cynulleidfa bresennol gan gynnwys mathau o ddefnydd, niferoedd ymwelwyr blynyddol, proffil ymwelwyr, rhesymau dros ddefnyddio, hyd aros, lefelau boddhad
- eich cynulleidfa bosibl gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr a rhwystrau wedi'u nodi neu ganfyddedig i fwy o ddefnydd
- cwmpas a natur presennol ymgysylltu cymunedol a gwirfoddoli gan gynnwys yr amrywiaeth a'r math o bobl sy'n cymryd rhan a'r hyn y maent yn ei wneud
- digwyddiadau a gweithgareddau presennol gan gynnwys pwy sy'n eu rhedeg, sut y cânt eu hariannu, sut y cânt eu marchnata a'u hyrwyddo, pwy sy'n eu mynychu a pha mor llwyddiannus y maent
- rôl bresennol grwpiau defnyddwyr y safle neu wirfoddolwyr, eu sgiliau, unrhyw gyfrifoldebau rheoli a sut y maent yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau

### Y sefydliad

Rhowch fanylion unrhyw sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli a chynnal a chadw'r safle, y casgliad neu'r ased.

### Cyd-destun polisi

Nodwch bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar reoli a chynnal a chadw eich safle, casgliad neu ased. Dim ond materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnoch chi y dylech eu cynnwys ac ystyriwch ddefnyddio atodiadau i gynnwys cyd-destun polisi ehangach.

### Rheoli a chynnal a chadw ar hyn o bryd

Dylech gynnwys y strwythur rheoli presennol, wedi'i ddangos fel organogram yn amlygu'r meysydd gwasanaeth allweddol. Rhestrwch bawb sy'n chwarae rhan mewn rheoli a chynnal a chadw gan gynnwys yr holl swyddi staff a gyflogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gontractau, yn amser llawn neu'n rhan-amser.

Dangoswch yr holl adrannau a sefydliadau allanol eraill (rhanddeiliaid) sy'n cynorthwyo neu'n llywio'r gwaith o reoli a chynnal a chadw'r safle, y casgliad neu'r ased fel organogram.

Dylech gynnwys disgrifiad byr o'r safonau cynnal a chadw presennol gan gynnwys pwy sy'n eu darparu, sut y cânt eu caffael, a ydynt yn cael eu cyflwyno gan staff ar y safle a pha gyfleusterau cynnal a chadw sy'n

bodoli ar y safle.

Dylech hefyd ddisgrifio gweithdrefnau gweithredol ar gyfer archwilio, atgyweirio a gwneud gwaith cynnal a chadw sydd heb ei gynllunio megis delio â graffiti ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## 3. Dadansoddiad, nodau ac amcanion (lle rydym eisiau cyrraedd)

Dywedwch sut rydych wedi gwerthuso'n feirniadol:

- eich treftadaeth, ei chyflwr cyffredinol a'r bygythiadau presennol i'w harwyddocâd treftadaeth
- perfformiad y sefydliad rheoli, digonolrwydd yr adnoddau presennol, lefelau sgiliau, gweithdrefnau a rheoli amgylcheddol
- safbwyntiau, syniadau a dyheadau eich cynulleidfaoedd presennol a phosibl

Gallwch gynnwys elfennau o gynlluniau eraill a gynhyrchwyd fel rhan o'ch prosiect fel bod gennych asesiad cynhwysfawr. Bydd hyn yn eich galluogi i ddatblygu nid yn unig weledigaeth gyffredinol ond hefyd rhai nodau ac amcanion clir y gellir eu trosi'n gamau gweithredu gydag amserlenni ac adnoddau sydd wedi'u nodi.

### Rheoli a chynnal a chadw arfaethedig

Ystyriwch y nodau cyffredinol rydych wedi'u diffinio ar gyfer eich prosiect. Aseswch sut y gallai fod angen i'ch gweithdrefnau, prosesau ac adnoddau rheoli a chynnal a chadw newid i gynnal y gwaith cyfalaf a'r gweithgareddau arfaethedig.

Er mwyn darparu cymhariaeth uniongyrchol â'r wybodaeth a ddarperir o dan 'rheoli a chynnal a chadw presennol' uchod, gofynnir i chi ddarparu:

- organogram o'r sefydliad rheoli arfaethedig. Amlygwch feysydd gwasanaeth allweddol sy'n gyfrifol am y safle, y casgliad neu'r ased neu sy'n chwarae rhan yn y gwaith o'i reoli a'i gyflwyno, gan gynnwys yr holl swyddi staff a gyflogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- organogram yn dangos sut y bydd yr holl adrannau a sefydliadau allanol eraill yn ymwneud â rheoli a chynnal a chadw'r safle, y casgliad neu'r ased yn y dyfodol
- disgrifiad o'r gweithrediadau rheoli a chynnal a chadw arfaethedig, sut y cânt eu caffael a'u cyflwyno, eu hamlder neu eu targedau perfformiad. Gellir cyflwyno hwn naill ai fel testun neu dabl o weithrediadau cyfnodol.
- disgrifiad o sut y byddwch yn ymateb i unrhyw broblemau yn y dyfodol megis newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, graffiti, fandaliaeth, sbwriel, cwynion neu bryderon o ran diogelwch, gan osod targedau clir ar gyfer ymateb

Dangoswch eich bod wedi meddwl am sut mae angen gofalu am y safle, y casgliad neu'r ased ar ôl cwblhau'r gwaith cyfalaf. Esboniwch yr angen am unrhyw gostau rheoli a chynnal a chadw uwch yr ydych wedi'u dyrannu i'r prosiect neu pam y credwch nad oes angen costau ychwanegol.

### Cynllun gweithgareddau a thechnoleg ddigidol

Edrychwch ar sut y bydd eich cynllun rheoli a chynnal a chadw yn y dyfodol yn parhau i gefnogi'r cynigion a nodir yn eich cynllun gweithgareddau. Efallai y bydd angen gofalu am gyfleusterau newydd megis:

- arddangosfeydd
- mannau addysg
- arddangosiadau electronig a dyfeisiau rhyngweithiol

Nodwch pa hyfforddiant y byddwch yn ei ddarparu i sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr y sgiliau i gynnal a chadw a rheoli'ch treftadaeth ar ôl i'r prosiect ddod i ben, a phryd a sut y byddwch yn darparu'r hyfforddiant hwn.

Mae arnom angen i unrhyw allbynnau digidol (er enghraifft, tudalennau gwe a dogfennau, gwaith clyweled, mapiau ac arolygon) y byddwch yn eu creu gydag arian grant fod **ar gael**, yn **hygyrch** ac yn **agored**. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu mynediad rhydd i ddeunyddiau am o leiaf bum mlynedd, gan ddibynnu ar werth eich prosiect. Gallwch gael gwybod mwy am y gofynion hyn yn ein canllaw arfer da digidol.

**Diogelu'r amgylchedd**

Disgwyliwn i bob prosiect a ariannwn warchod yr amgylchedd. Am ragor o wybodaeth gweler ein canllaw arfer da cynaladwyedd amgylcheddol.

**Risg**

Bydd angen i chi ystyried:

- natur ac amrywiaeth y risgiau i’r safle, y casgliad neu'r ased ar ôl cwblhau’r prosiect
- eich cynigion ar gyfer rheoli’r risgiau

Gofynnir i chi am hyn fel rhan o'ch cais rownd gyflwyno.

## 4. Cynllun gweithredu (sut y byddwn yn cyrraedd yno)

Mae'r adran hon yn crynhoi popeth sydd angen i chi ei wneud a phryd, fel arfer ar ffurf tabl. Dylai camau gweithredu lifo o'ch amcanion. Dylai eich cynllun gweithredu fod yn glir ynghylch:

- pwy sydd angen arwain ar y camau gweithredu
- pwy sydd angen eu cefnogi
- pa sgiliau fydd eu hangen arnynt
- pryd y bydd angen iddo ddigwydd
- pa nod neu amcan y mae'r cam gweithredu'n ymwneud ag ef
- pa adnoddau sydd eu hangen (os oes gofyniad am arian gan y prosiect, esboniwch ble mae hyn yn ymddangos yng nghostau’r prosiect)

**Tabl incwm a gwariant**

Lluniwch dabl incwm a gwariant sy’n cwmpasu pum mlynedd ar ôl cwblhau’r gwaith ymarferol. Ar ôl cwblhau'r gwaith ymarferol, diweddarwch hwn gyda:

- holl oblygiadau ariannol eich trefniadau rheoli a chynnal a chadw presennol ac arfaethedig
- goblygiadau rheoli a chynnal a chadw sy'n deillio o unrhyw waith a gweithgareddau cyfalaf eraill
- crynodeb o unrhyw incwm a gwariant o unrhyw weithgarwch masnachol
- pob eitem o wariant
- golwg ar gostau oes gyfan a chostau cyfleusterau gwahanol
- lwfans ar gyfer gwaith a gaiff ei wneud gan wirfoddolwyr ac unrhyw gyfraniadau mewn nwyddau

Fe’ch anogir yn gryf i feddwl am ddulliau arloesol o godi incwm i gefnogi'ch costau yn y dyfodol megis grantiau, ariannu gan awdurdodau lleol, tenantiaethau, lesau, mynediad masnachol, consesiynau, rhentu, caffis, siopau, priodasau, parcio, ffioedd mynediad, ffilmio, digwyddiadau, nawdd, atafaelu carbon ac

enillion net bioamrywiaeth.

**Monitro, gwerthuso ac adolygu'r cynllun**

Esboniwch sut y bydd y cynllun ei hun yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Unwaith y byddwch yn y cam cyflwyno, adolygwch y cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn i adlewyrchu gwybodaeth newydd, ymchwil newydd a newidiadau dylunio, ac i amlygu’r hyn a gyflawnwyd.

# Awgrymiadau ar gyfer cynllunio llwyddiannus

## Cael cymorth arbenigol

Efallai y bydd angen help arnoch chi a'ch tîm i baratoi'r cynllun rheoli a chynnal a chadw neu i hyfforddi staff i'w roi ar waith. Os oes angen cymorth arbenigol arnoch i baratoi eich cynllun, gwnewch yn si?r eich bod yn nodi'r gost fel rhan o'ch gwaith datblygu prosiect.

## Cynnwys pobl

Defnyddiwch y broses i ddwyn ynghyd y bobl a fydd yn hanfodol i lwyddiant eich prosiect neu strategaeth rheoli. Gwnewch yn si?r bod y ddogfen yn cynnwys ystod eang o safbwyntiau. Gall oedi a chostau ychwanegol godi os nad yw'r bobl iawn yn cymryd rhan. Hefyd, rhowch gopïau o'r cynllun gorffenedig i unrhyw un sy'n ymwneud â gofalu am eich safle gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff a chontractwyr.

## Rheoli'r cynllun

Gwnewch yn si?r bod y cynllun yr ydych chi'n ei baratoi, neu'n ei gomisiynu, yn eich helpu i ofalu am yr ased. Byddwch yn barod i reoli'r broses gynllunio o’r drafodaeth gyntaf ar y syniad hyd at y broses gomisiynu i sicrhau bod pobl yn defnyddio’r cynllun yn y tymor hir.

## Cyfryngu

Defnyddiwch y cynllun i gyfryngu rhwng gwahanol syniadau am dreftadaeth a'i chadwraeth. Er enghraifft, efallai y bydd gan arbenigwyr treftadaeth adeiledig ac ecolegwyr ddyheadau amrywiol yngl?n â sut i ofalu am eich safle, casgliad neu ased.

## Trefnu gwybodaeth

Gall cynllun gael ei lethu’n hawdd gan y maint o wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gofalu am ased treftadaeth cymhleth. Cadwch ffeil rheoli a chynnal a chadw ddiogel a diweddarwch hi'n rheolaidd. Cadwch gopïau o arolygon a gwybodaeth arall yn y ffeil, yn ogystal â chopi o'ch cynllun rheoli a chynnal a chadw. Efallai y byddwch hefyd am gadw copi bob dydd cyfredol.

## Ei fabwysiadu a'i ddefnyddio

Disgwyliwn i chi fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol fel rhan o bolisïau rheoli eich sefydliad. Disgwyliwn hefyd weld y cynllun wedi'i labelu'n glir fel un sydd wedi'i fabwysiadu, gydag enwau'r rhai sy'n gyfrifol am ei fabwysiadu ar ran eich sefydliad a'r dyddiad y cafodd y cynllun ei fabwysiadu.

## Ei gyhoeddi

Gwnewch yn si?r bod copi gan bawb sydd angen defnyddio'r cynllun. Cadwch brif gopi mewn archif ddiogel gan y byddwn o bosibl yn gofyn am ei weld yn y dyfodol. Dylai'r cynllun fod ar gael ar eich gwefan fel y gall pobl eraill ddysgu ohono.

# Arweiniad gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o dreftadaeth

## Tirweddau, parciau cyhoeddus, mynwentydd a gerddi

Os yw eich prosiect yn adfer tirwedd, parc cyhoeddus, mynwent neu ardd, fel rhan o'n telerau grant dylech ennill a chadw Gwobr y Faner Werdd unwaith y bydd gwaith cyfalaf eich prosiect wedi cyrraedd y cam cwblhau ymarferol. Bydd yn ofynnol i chi gadw Gwobr y Faner Werdd ar lefel llwyddiant uchel am o leiaf saith mlynedd.

I'ch cynorthwyo i ennill Gwobr y Faner Werdd gallwch ddefnyddio templed rheoli a chynnal a chadw safonol Gwobr y Faner Werdd er mwyn cynhyrchu eich cynllun ar gyfer cais eich prosiect. Nid oes angen cynhyrchu dau gynllun.

Bydd arweiniad Gwobr y Faner Werdd yn eich helpu paratoi cynllun rheoli a chynnal a chadw a fydd yn ein bodloni ni a Gwobr y Faner Werdd.

## Adeiladau hanesyddol

Y ffordd orau o fynd i’r afael â gofal hirdymor adeiladau hanesyddol yw canolbwyntio ar waith cynnal a chadw ataliol rheolaidd, sy’n:

- cynnal golwg yr adeilad ac yn ymestyn ei oes
- atal colli ffabrig gwreiddiol, oherwydd bod llai o ddeunydd yn cael ei golli mewn gwaith graddfa fach rheolaidd nag mewn prosiectau adfer helaeth
- ymestyn y cyfnod rhwng prosiectau atgyweirio, gan roi llai o faich ar adnoddau prin
- lleihau'r angen am ddeunyddiau newydd, sydd yn ei dro yn lleihau prosesu, cludiant, gwastraff a'r defnydd o ynni

### Arfer da

Mae angen cynnal arolygiadau cynnal a chadw blynyddol cynlluniedig mewn ffordd ofalus a threfnus. Yn ddelfrydol, dylech anelu at gwblhau arolygiad gweledol llawn o'ch adeiladau o leiaf unwaith y flwyddyn. Dechreuwch trwy baratoi rhestr wirio yn nodi holl elfennau'r adeilad y mae angen eu harolygu. Mae templedi ar gael gan:

- gwefan Historic England
- gwefan y Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad
- Mae gan Historic England restr wirio cynnal a chadw ar gyfer mannau addoli hefyd

### Cynghorion gwych

- Nid oes rhaid i'r arolygiad gael ei gynnal mewn un diwrnod ond efallai y gall fynd i'r afael ag un adran ar y tro.
- Mae’n ddefnyddiol cynnal yr arolygiadau allanol yn ystod, neu’n syth ar ôl, glaw trwm, gan fod hyn yn amlygu a yw nwyddau d?r glaw yn gweithio’n iawn ai beidio. Ac mae bob amser yn werth gwirio ardaloedd bregus ar ôl glaw trwm neu eira.

- Efallai ei fod yn haws arolygu pob wyneb o’r adeilad yn ei dro, gan ddechrau drwy edrych i fyny ar y to a gweithio i lawr. Mae binocwlars yn gymorth defnyddiol.
- Fodd bynnag, os yw rhannau o'r adeilad yn anhygyrch, ystyriwch a oes angen i chi geisio cymorth proffesiynol.
- Gall difrod stormydd i orchuddion to a fflachiadau metel roi llwybr i dd?r dreiddio i mewn i'r adeilad, y mae angen mynd i'r afael ag ef mor gyflym â phosibl.
- Os bydd eich arolygiad yn nodi materion sy'n peri pryder, dylech geisio cyngor pellach gan bensaer neu syrfëwr adeiladu.

# Yr hyn a olygwn wrth ‘rheoli’ a ‘cynnal a chadw’

Pan fyddwn yn siarad am reoli a chynnal a chadw, mae **rheoli'n cynnwys yr holl weithgareddau a all gadw treftadaeth mewn cyflwr da**, megis rhoi gweithdrefnau neu drefniadau ar waith ar gyfer:

- monitro a rheoli amgylcheddol
- trin a thrafod diogel a phriodol
- parodrwydd ar gyfer argyfwng
- storio a diogelwch
- caffael a gwaredu
- cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau a dod o hyd i ganiatadau neu drwyddedau lle bo angen
- croesawu ymwelwyr a defnyddwyr eraill
- cael mynediad at y sgiliau arbenigol sydd eu hangen i ofalu am eich treftadaeth
- darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr ac eraill sy'n gofalu am eich treftadaeth
- cyfranogiad y gymuned
- monitro
- bodloni safonau rheoli ar gyfer treftadaeth (e.e.: Gwobr y Faner Werdd i barciau, BS 4971 ar gyfer cadwraeth a gofalu am gasgliadau llyfrgell neu BS EN 16893 ar gyfer cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol ar safleoedd ac adeiladau newydd a fwriedir ar gyfer storio a defnyddio casgliadau)
- dogfennu safleoedd, rhywogaethau, casgliadau, adeiladau neu dirweddau
- bodloni safonau eraill (e.e.: safonau gweithredu ar gyfer rheilffyrdd hanesyddol)

**Cynnal a chadw yw'r gwaith bob dydd arferol sydd ei angen i atal dirywiad** megis:

- cynnal a chadw dehongliadau, arddangosfeydd a gweithgareddau rhyngweithiol
- cynnal a chadw goleuadau
- cynnal a chadw cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr a gwasanaethau eraill
- cadw llwybrau, ffensys a mynedfeydd mewn cyflwr da
- clirio cwteri a chadw draeniau'n glir
- peintio gwaith coed ac ailosod teils to sydd wedi llithro
- cadw gwrthrychau gweithio mewn cyflwr gweithredol da
- cadw allbynnau digidol i weithio fel y'i fwriedir
- mudo ffeiliau digidol i fformat priodol i osgoi darfodiad
- delio â sbwriel, casglu a gwaredu gwastraff
- cadw t? a glanhau rheolaidd
- arolygiadau rheolaidd o offer, adeileddau a gwasanaethau
- gofalu am goed a llystyfiant arall

# Cysylltiadau â chynlluniau eraill

## Cysylltiadau â'r cynllun cadwraeth

- Gallai'r ffordd y mae'r cynllun cadwraeth yn diffinio parthau'r safle eich helpu i drefnu'r adran disgrifiad o'r safle yn y cynllun rheoli.
- Gwnewch yn si?r eich bod yn crynhoi unrhyw ddynodiadau adeiledig, tirwedd neu natur a gwybodaeth hanesyddol ddefnyddiol arall o'r cynllun cadwraeth.
- Gwnewch yn si?r bod y cynllun rheoli a chynnal a chadw yn cynnwys crynodeb o arwyddocâd y safle, casgliad neu ased.

### Cysylltiadau â'r prif gynllun prosiect a dyluniad cyffredinol y prosiect

- Edrychwch ar yr holl elfennau cyfalaf a phenderfynwch sut y byddant yn cael eu cynnal a chadw, pwy fydd yn ei wneud, pa sgiliau y bydd eu hangen arnynt, pryd y bydd angen gwneud pethau a beth fydd y gost.
- Penderfynwch a oes ymyriadau rheoli ar wahân i brosiectau cyfalaf (e.e.: a oes angen i chi wneud gwaith ffisegol arall i wella'ch treftadaeth y tu hwnt i'n buddsoddiad ni?)
- Pan fyddwch yn adolygu'r cynllun rheoli yn ystod y cam cyflwyno, gwnewch yn si?r eich bod yn cofnodi gwybodaeth allweddol er mwyn cynnal ansawdd nodweddion sydd newydd eu hadfer (e.e.: tarddiad a manyleb y deunyddiau, y palet o liwiau a ddefnyddir i beintio nodweddion/dodrefn, cynlluniau plannu).

### Cysylltiadau â'r cynllun gweithgareddau

- Yn y cynllun rheoli a chynnal a chadw, dylech gynnwys disgrifiad byr o ddemograffeg eich ardal i ddangos eich bod yn deall y cyd-destun.
- Nodwch sut y bydd y lefelau presennol ac arfaethedig o wirfoddoli ac ymgysylltu cymunedol sydd wedi'u nodi yn eich cynllun gweithgareddau'n cael eu rheoli a'u cynnal yn y dyfodol.
- Nodwch sut fydd y gymuned leol yn cymryd rhan yn weithredol wrth reoli a gofalu am y safle, y casgliad neu'r ased yn y dyfodol.

Os oes gennych brosiect sy'n cynnwys ffrydiau incwm masnachol, megis caffi neu ganolfan ymwelwyr, bydd angen gwybodaeth arnom am weithrediad y busnesau hyn, wedi'i ddisgrifio yn eich cynllun rheoli a chynnal a chadw.

## Atodiad 3: Camau paratoi cynllun rheoli a chynnal a chadw

### Cam 1: Cyn eich cais cam datblygu

Gweithiwch allan yn gyntaf:

- pwy y mae angen ymgynghori â nhw neu eu cynnwys
- pa wybodaeth sydd eisoes ar gael neu y mae angen dod o hyd iddi
- pwy fydd yn ysgrifennu'r cynllun
- pa adnoddau fydd eu hangen

#### Eich treftadaeth

Meddyliwch am eich treftadaeth ac ystyriwch a yw'r holl sefydliadau cywir yn ymwneud â'i rheoli a'i chynnal a chadw ar hyn o bryd. Ystyriwch ai'r safonau cynnal a chadw cyffredinol yw'r hyn sydd ei angen? Meddyliwch sut y gellid gwella safonau naill ai drwy fuddsoddiad cyfalaf neu drwy newidiadau mewn arferion gwaith.

#### Cyllidebau ac adnoddau

Adolygwch y strwythur staffio ac adnoddau ehangach presennol. Ystyriwch sut y gallai fod angen i hyn newid yn y dyfodol ac wrth ymateb i'n buddsoddiad yn y prosiect.

Ystyriwch a oes modd cynnal a chadw popeth sydd i'w gyflwyno drwy'r prosiect yn briodol gyda chyllidebau ac adnoddau rheoli a chynnal a chadw presennol. Os mai 'oes' yw'r ateb, bydd angen i chi roi esboniad clir o sut y caiff hyn ei gyflawni a sut y caiff safonau eu cynnal. Os mai 'nac oes' yw'r ateb, bydd angen i chi nodi arian ac adnoddau ychwanegol ac esbonio sut y caiff y rhain eu cynnal yn y tymor hir.

**Y tîm**

Nodwch y tîm a fydd yn ymwneud â pharatoi'r cynllun rheoli a chynnal a chadw yn ystod y cam datblygu. Nodwch ba sgiliau y bydd arnynt eu hangen i allu ysgrifennu'r cynllun. Penderfynwch a allwch gynhyrchu'r cynllun yn fewnol neu a oes angen cymorth neu arbenigedd ychwanegol arnoch. Os oes angen adnoddau ychwanegol, yna dylid cynnwys cost y rhain yn eich cais. Peidiwch â thanamcangyfrif yr amser y bydd yn ei gymryd na manteision cyflogi cyngor arbenigol neu gyfaill beirniadol.

**Adolygu perfformiad**

Meddyliwch am sut y byddwch yn adolygu eich perfformiad a gweithdrefnau rheoli amgylcheddol yn ystod y cam datblygu ac yn caniatáu ar gyfer cyngor arbenigol yn eich cais os bydd angen cymorth arbenigol.

## Cam 2: Yn ystod y cam datblygu

Erbyn eich adolygiad datblygu, byddwn yn disgwyl i chi feddu ar y canlynol:

- strwythur clir i’ch cynllun rheoli a chynnal a chadw (gweler ein strwythur awgrymedig uchod)
- byddwch wedi ysgrifennu'r adran 'lle rydyn ni nawr'
- nodi nodau ac amcanion cychwynnol
- adolygu a mireinio'ch strwythur staffio gan gynnwys adnoddau staff ar gyfer rheoli prosiect a chyflwyno'r cynllun gweithgareddau
- datblygu cynllun gweithredu i gynnwys pobl, gwirfoddolwyr ac yn benodol unrhyw grwpiau sy'n defnyddio'r safle mewn trafodaethau am eu rôl yn y gwaith rheoli a chynnal a chadw
- adolygu'r dyluniadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y gwaith cyfalaf a chadwraeth er mwyn nodi pa adnoddau neu sgiliau ychwanegol y gallai fod eu hangen yn y dyfodol
- ystyried eich cyllidebau incwm a gwariant cyffredinol a nodi unrhyw gyfleoedd i gynyddu incwm y safle
- datblygu eich data gwerthuso gwaelodlin ac ystyried syniadau drafft ar gyfer targedau monitro a gwerthuso

Ar ôl yr adolygiad datblygu byddwn yn disgwyl i chi:

- ddatblygu eich rhagolygon incwm a gwariant cyffredinol yn seiliedig ar ddyluniadau cam D RIBA/LI ac unrhyw incwm masnachol posibl
- nodi a chadarnhau unrhyw ymchwydd arfaethedig mewn adnoddau ariannol neu staff
- cwblhau eich strwythur staffio arfaethedig a drafftio disgrifiadau swydd priodol
- cadarnhau'r holl dargedau ar gyfer monitro a gwerthuso
- cwblhau a mabwysiadu'r cynllun rheoli a chynnal a chadw

## Cam 3: Yn ystod y cam cyflwyno

Dylai'r cynllun rheoli a chynnal a chadw fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu a'i diweddaru wrth i'r prosiect ddatblygu. Yn ystod y cam hwn dylech:

- adolygu’r cynllun yn flynyddol
- gwirio bod eich cynlluniau i warchod yr amgylchedd ar y trywydd iawn
- diwygio a diweddaru'r cynllun i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn natur a chwmpas y gwaith ffisegol neu unrhyw arolygon ymwelwyr newydd
- sicrhau bod rolau pobl leol, gwirfoddolwyr ac unrhyw grwpiau sy'n defnyddio'r safle'n wedi'u nodi’n glir a’u cadarnhau
- coladu gwybodaeth ddylunio megis manylebau deunydd a chynnyrch, cynlluniau, arolygon neu luniadau fel eu bod ar gael ar gyfer gweithrediadau cynnal a chadw yn y dyfodol

## Cam 4: Ar ôl cwblhau'r gwaith cyfalaf

Adolygwch a diweddarwch eich cynllun rheoli a chynnal a chadw. Rydym yn disgwyl i chi:

- ymestyn y cynllun i 10 mlynedd gan ddechrau o ddyddiad cwblhau’r prosiect a chynnal ail ragolwg o unrhyw ragamcanion ariannol yn seiliedig ar y cynllun ‘fel y’i adeiladwyd'
- cyflwyno eich cynllun i ni i'w gymeradwyo

Bydd angen i chi ystyried sut yr ydych yn darparu adnoddau ar gyfer datblygu'r cynllun rheoli a chynnal a chadw wrth i chi gyflwyno'r prosiect a gwneud darpariaeth ar gyfer cost unrhyw gyngor arbenigol y gallai fod ei angen arnoch.